

Emboleiddio aniwrysmau mewngreuanol sydd wedi rhwygo gan ddefnyddio coil

**Deall arweiniad NICE –
gwybodaeth i bobl sy'n ystyried y
weithdrefn, a'r cyhoedd**

Emboleiddio aniwrysgau mewngreuanol sydd wedi rhwygo gan ddefnyddio coil

Deall arweiniad NICE – gwybodaeth i bobl sy'n ystyried y weithdrefn, a'r cyhoedd

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2005

I archebu copïau

Gellir archebu copïau o'r llyfryn hwn o Linell Ymateb y GIG; ffoniwch 0870 1555 455 a dyfynnwch y rhif cyfeirnod N0801. Mae copi Saesneg yn unig ar gael hefyd, rhif cyfeirnod N0800. Mae arweiniad ymyriadau NICE y seiliwyd y wybodaeth hon arno ar gael o wefan NICE (www.nice.org.uk). Gellir cael copïau o Linell Ymateb y GIG hefyd, rhif cyfeirnod N0799.

National Institute for Clinical Excellence

MidCity Place
71 High Holborn
London
WC1V 6NA

Gwefan: www.nice.org.uk

ISBN: 1-84257-860-X

Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol
Ionawr 2005

Cysodwyd gan Icon Design, Eton
Argraffir yn ôl y galw

© Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol, Ionawr 2005.
Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r deunydd hwn am ddim at ddibenion addysgol ac at ddibenion nad ydynt yn gysylltiedig ag elw o fewn y GIG. Ni chaniateir atgynhyrchu gan neu ar gyfer sefydliadau masnachol heb ganiatâd ysgrifenedig uniongyrchol y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol.

Cynnwys

Ynglŷn â'r wybodaeth hon	4
Ynglŷn ag emboleiddio aniwrysmau mewngreuanol sydd wedi rhwygo gan ddefnyddio coil	5
Beth y mae NICE wedi'i benderfynu?	8
Beth y mae'r penderfyniad yn ei olygu i chi	9
Gwybodaeth bellach	10

Ynglŷn â'r wybodaeth hon

Mae'r wybodaeth hon yn disgrifio'r arweiniad y mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) wedi ei ddsbarthu i'r GIG ar weithdrefn a elwir yn emboleiddio aniwrysgau mewngreuanol sydd wedi rhwygo gan ddefnyddio coil. Nid yw'n ddisgrifiad cyflawn o'r hyn y mae'r weithdrefn yn ei olygu – dylai tîm gofal iechyd y claf ei disgrifio yn fanwl.

Mae NICE wedi edrych ar ba un a yw emboleiddio aniwrysgau mewngreuanol sydd wedi rhwygo gan ddefnyddio coil yn ddigon diogel ac yn gweithio'n ddigon da i'w ddefnyddio fel triniaeth arferol.

Er mwyn llunio'r arweiniad hwn, mae NICE wedi:

- edrych ar ganlyniadau astudiaethau o ba mor ddiogel yw emboleiddio aniwrysgau mewngreuanol sydd wedi rhwygo gan ddefnyddio coil ac o ba mor dda y mae'n gweithio
- gofyn am farn arbenigwyr
- gofyn am farn sefydliadau sy'n cynrychioli gweithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd a'r cleifion a'r gofalwyr yr effeithir arnynt gan yr arweiniad hwn.

Mae'r arweiniad hwn yn rhan o'r gwaith y mae NICE yn ei wneud ar 'ymyriadau' (gweler 'Gwybodaeth bellach' ar dudalen 10).

Ynglŷn ag emboleiddio aniwrysmau mewngreuanol sydd wedi rhwygo gan ddefnyddio coil

Aniwrysm yw'r enw meddygol ar yr hyn sy'n digwydd pan fydd rhan o bibell waed yn dechrau chwyddo fel balŵn. Aniwrysm mewngreuanol yw un sy'n digwydd y tu mewn i'r benglog. Ni wyddom beth yw'r achos fel arfer ond mae pobl sydd ag achosion genetig o bibellau gwaed gwan yn fwy tebygol o ddatblygu aniwrysmau.

Os bydd aniwrysm mewngreuanol yn rhwygo, mae'n achosi'r hyn a elwir yn waedlif isarachnoid. Dyma'r term meddygol am waed sy'n gollwng i'r gofod o amgylch yr ymennydd. Mae gwaedlifau isarachnoid yn ddifrifol a gallant fod yn angheuol.

Mae emboleiddiad yn weithdrefn y gellir ei defnyddio ar gyfer aniwrysmau sydd wedi rhwygo. Y nod yw atal neu leihau'r llif gwaed yn sylweddol a rhwystro unrhyw waedu anarferol pellach. Mae'n golygu rhoi rhywbeth yn yr aniwrysm i wneud i'r gwaed ynddo geulo.

Mae'r ffordd safonol o gynnal emboleiddiad i drin aniwrysm mewngreuanol yn golygu gwneud llawdriniaeth ar y benglog i 'glipio'r' pibellau gwaed yr effeithiwyd arnynt. Mae emboleiddio aniwrysmau mewngreuanol drwy ddefnyddio'r hyn a elwir yn dechneg coil yn golygu trin yr aniwrysm o du mewn i'r bibell waed ei hun. Golyga hyn nad oes angen llawdriniaeth drwy'r benglog.

Yn y weithdrefn, caiff tiwb main sy'n cynnwys coil bach ar wifren ei roi mewn pibell waed fawr, fel arfer yng ngafll y claf. Yna bydd y meddyg yn symud y tiwb i fyny'r bibell waed nes y bydd yn cyrraedd y benglog, gan ddefnyddio pelydr-X i'w arwain. Rhoddir y coil yn yr aniwrysm ac yna caiff y tiwb ei dynnu oddi yno. Bydd angen mwy nag un coil i lenwi aniwrysm fel arfer.

Pa mor dda y mae'n gweithio

Yr hyn a ddywedodd yr astudiaethau

Dangosodd canlyniadau astudiaeth dda fod y risg o farw neu o ddod yn ddibynnol o ganlyniad i anabledd yn is ymysg pobl oedd wedi cael emboleiddiad coil o'i gymharu â'r rhai oedd wedi cael llawdriniaeth ar y benglog ar gyfer aniwrysm mewngreuanol a oedd wedi rhwygo.

Ar hyn o bryd, ni chynhaliwyd astudiaethau dilynol ar bobl sydd wedi cael y driniaeth coil am gyfnodau digon hir i alluogi'r risgiau neu'r problemau i gael eu canfod.

Yr hyn a ddywedodd yr arbenigwyr

Mae'r arbenigwyr o'r farn bod y dechneg emboleiddiad coil yn well na chlipio llawdriniaethol yn y tymor byr. Ond dywedasant nad yw'n hysbys eto pa mor hir y bydd effeithiau'r driniaeth yn para.

Risgiau a phroblemau posibl

Yr hyn a ddywedodd yr astudiaethau

Yn yr astudiaethau yr edrychodd NICE arnynt, cafodd rhai o'r bobl a gafodd emboleiddiad coil broblemau o ganlyniad i'r weithdrefn. Roedd y rhain yn cynnwys twll yn yr aniwrysm, chwydd llawn gwaed yn ffurfio yn yr ardal (a elwir yn hematoma), a mwy o waedu o'r aniwrysm. Mewn un grŵp o 403 o gleifion, cafodd 11 dwll, ffurfiodd ceulad gwaed mewn 10 o gleifion, ac mewn 2 o gleifion, symudodd y coil o'i le yn yr aniwrysm.

Yr hyn a ddywedodd yr arbenigwyr

Roedd yr arbenigwyr o'r farn bod emboleiddiad gan ddefnyddio'r dechneg coil yn fwy diogel na llawdriniaeth ar y benglog. Ond dywedasant fod risg o farwolaeth a strôc yn gysylltiedig â'r weithdrefn. Dywedodd yr arbenigwyr hefyd y dylai cleifion gael eu monitro dros gyfnod o amser ar ôl cael y weithdrefn, gan fod risg fach y gallai'r aniwrysm waedu eto.

Beth y mae NICE wedi'i benderfynu am emboleiddio aniwrysmau mewngreuanol sydd wedi rhwygo gan ddefnyddio coil?

Mae NICE wedi ystyried y dystiolaeth ar emboleiddio aniwrysmau mewngreuanol sydd wedi rhwygo gan ddefnyddio coil. Mae wedi argymhell y dylai meddygon, pan fyddant yn ei ddefnyddio ar gyfer pobl sydd ag aniwrysmau mewngreuanol sydd wedi rhwygo, sicrhau:

- bod y claf yn deall yr hyn y mae'r weithdrefn yn ei olygu a bod y claf yn cytuno (rhoi caniatâd) i'r weithdrefn
- y caiff canlyniadau'r weithdrefn eu monitro.

Mae NICE wedi dweud hefyd bod angen gofal arbenigol yn gyflym ar bobl sy'n cael gwaedlif isarachnoid. Dylid gwneud trefniadau clir i sicrhau bod y meddygon a'r gweithwyr iechyd proffesiynol cywir yn rhan o driniaeth a gofal y claf.

Beth y mae'r penderfyniad yn ei olygu i chi

Efallai bod eich meddyg wedi cynnig emboleiddio aniwrysmau mewngreuanol sydd wedi rhwygo gan ddefnyddio coil i chi. Mae NICE wedi ystyried y weithdrefn hon am ei bod yn gymharol newydd. Mae NICE wedi penderfynu bod y weithdrefn yn ddigon diogel ac yn gweithio'n ddigon da ar gyfer pobl sydd ag aniwrysmau mewngreuanol sydd wedi rhwygo i'w defnyddio yn y GIG. Er hynny, dylech ddeall manteision a risgiau'r dechneg coil cyn i chi gytuno i gael y weithdrefn. Dylai eich meddyg drafod y manteision a'r risgiau gyda chi. Efallai bod rhai o'r manteision a'r risgiau hyn wedi'u disgrifio uchod.

Gwybodaeth bellach

Mae gennych hawl i gael yr holl wybodaeth ac i gymryd rhan yn y penderfyniad a wneir am y driniaeth a gewch. Efallai y byddwch am drafod yr arweiniad hwn gyda'r meddygon a'r nyrsys sy'n gofalu amdanoch.

Gallwch ymweld â gwefan NICE (www.nice.org.uk) i gael gwybodaeth bellach am y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol a'r Rhaglen Ymyriadau. Mae copi o'r arweiniad llawn ar emboleiddio aniwrysmau mewngreuanol sydd wedi rhwygo gan ddefnyddio coil ar wefan NICE (www.nice.org.uk/IPG106guidance), neu gallwch archebu copi o'r wefan neu drwy ffonio Llinell Ymateb y GIG ar 0870 1555 455 a dyfynnu rhif cyfeirnod N0799. Mae'r dystiolaeth a ystyriodd NICE wrth ddatblygu'r arweiniad hwn hefyd ar gael o wefan NICE.

Dyddiad: Ionawr 2005